**Sarah Simmonds,**
**Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol/**
**Executive Director of Workforce & OD**
01633 435 951
Sarah.Simmonds@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Ein Cyf: **SS/jac/pd.ETRAC**

05 Rhagfyr 2024

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

Annwyl Paul,

**PARTHED: Cyfarfod Dilynol 14 Tachwedd 2024**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Tachwedd 2024 yn gofyn am ddata ychwanegol mewn perthynas â chyflogaeth pobl sydd ag anableddau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Rydym yn gwahodd staff i gofnodi anabledd yn ystod y broses ymgeisio neu drwy ein Cofnod Staff Electronig (ESR). Mae hwn yn ddull gwirfoddol, ac mae rhai staff yn dewis peidio â chofnodi eu hanabledd er ein bod yn rhoi sicrwydd bod y wybodaeth hon yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi 857 o staff sydd ag anableddau datganedig, mae hyn yn cyfateb i 5.43% o'n gweithlu.

O'r wybodaeth sydd ar gael i ni gallwn gadarnhau bod 8% o'n prentisiaid wedi datgan anabledd. Fel y disgrifir uchod, mae'n debygol bod hyn yn cael ei dan-adrodd ac rydym yn parhau i hyrwyddo pwysigrwydd cofnodi anableddau er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn cael eu cefnogi yn y gwaith.

Nodwyd yn y Pwyllgor diweddar ein bod ar hyn o bryd yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd Lefel 2 ac yn paratoi ar gyfer ein cais ar gyfer Lefel 3. Rydym yn gobeithio gallu cyflwyno'r cais hwn erbyn haf 2025. At hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n gwneud cais am statws Visually Better Employer yr RNIB (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion).

Diolch am y cyfle i ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor, a gobeithiwn bod y dystiolaeth a roddwyd o fudd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r wybodaeth hon neu os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir

S E Simmonds.

**Sarah Simmonds**
**Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol/Executive Director of Workforce & Organisational Development**